# Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

**7/7/26**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Llinos Edwards (Cadeirydd), Dewi Jones, Lis Puw, Beryl Griffiths, Alwyn Jones, Rhodri Jones ac Arwel Ll Jones.

**Hefyd yn bresennol:** Alan Jones Evans (Cynghorydd Sir) a Huw Antur (Clerc a Swyddog Cyllid).

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

**3359 Croeso:** Fe groesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Llinos Edwards.

**3360 Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyng. Heledd Jones, Huw Roberts, Euros Roberts ac Alwyn Roberts.

**3361 Datganiadau o fuddiant:** Ni dderbyniwyd ddatganiad o fuddiant.

**3362 Cofnodion Cyfarfod Mehefin 2026:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3363 Materion yn codi / materion y Clerc:**

i. Parcio ger Tŷ'n Ddol: Adroddwyd fod y broses o gofrestru'r tir ar gyfer yr ardal barcio ar y gweill.
ii. Cronfa Cefnogi Cynghorau Cymuned: Adroddwyd fod y cais am gyllid i ariannu offer i Weithdy'r Saer wedi ei gymeradwyo. Fe gytunwyd i dderbyn y cynnig ac i fwrw ymlaen hefo'r gwaith ar y cyd â Phwyllgor y Neuadd Bentref.
iii. Fflatiau Maes y Pandy: Rhoddwyd adroddiad o'r cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r Heddlu ac ADRA ar Fehefin 10fed, ac fe drafodwyd yr angen i drafod ymhellach hefo Adra yr angen i gydweithio i sicrhau dyfodol cynaliadwy i'r fflatiau.
iv. Hyfforddiant Lleol Un Llais Cymru: Cytunwyd i drefnu'r sesiwn hyfforddiant ym mis Medi / Hydref / Tachwedd, ac i ddewis modiwl yn y cyfarfod nesaf o'r cyngor.

**3364 Derbyn adroddiad Cynghorydd Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad gan y Cyng Alan Jones Evans, pryd y soniodd:

- Fod y polion du a gwyn ar ffordd Cwm Cynllwyd wedi cael eu hadnewyddu.
- Fod problem y biniau sbwriel ger Mynwent y Pandy wedi ei datrys.
- Fod casgliadau y gwasanaeth ailgylchu yn ôl mewn trefn yn y pentref.
- Fod gwaith ar y gweill i ddatrys problem dwr ar y ffordd ger ffordd Bryn Melyn.
- Fod ffordd Pennantlliw Fawr yn cael sylw (seidio a ffosio etc).
- Fod Cyfoeth Naturiol Cymru i'w gweld yn amharod i glirio'r graean ger Pont Lliw, gwaith a allai atal dwr i ddod i'r ffordd yn ystod llifogydd mawr. Cytunwyd fod angen atgoffa Cyfoeth Naturiol Cymru fod hon yn gefnffordd allweddol i'r gwasanaethau brys a thrafnidiaeth gyhoeddus, a bod angen gwneud pob ymdrech i gadw'r ffordd ar agor bob amser.

**3365 Derbyniwyd adroddiadau'r is-bwyllgorau:**

1. **Pwyllgor Datblygu**:
a) Llwybrau Treftadaeth Llanuwchllyn - Adroddwyd fod y gwaith pennaf o osod polion teithiau Cynllwyd, Peniel a Phenantlliw wedi ei gwblhau, ond bod angen cytuno ar leoliad un polyn ychwanegol. Cytunodd y Cyng Dewi Jones i ymchwilio i gael mapiau addas ar gyfer creu cynnwys i'w roi ar wefan y cyngor.
b) Prosiect Enwau Lleoedd: Adroddwyd fod cytundeb yn ei le gyda Iola Edwards i gwblhau murlun enwau lleoedd i'w osod ar wal cyntedd y Neuadd Bentref.
c) Adroddwyd fod y pwyllgor wedi trafod materion Ardoll Ymwelwyr Gwynedd, Proffil Anheddau Llanuwchllyn a materion Comisiwn Democratiaeth Cymru – gweler eitem 3370.
2. **Pwyllgor y Fynwent:** Cytunwyd fod y fynwent yn cael gofal da, a bod angen trafod trefniadau casglu gwair wedi ei dorri mewn rhai ardaloedd o'r fynwent.
3. **Pwyllgor Asedau:** Adroddwyd fod gwaith coed Porth y Fynwent Newydd wedi ei baentio. Cytunwyd fod ardal y lloches bws ger Ysgol O M Edwards angen sylw, a bod llechen ar y Gilfach Goffa angen ei hadnewyddu.
4. **Pwyllgor Bioamrywiaeth:** Adroddwyd fod y coed duon ger y fynwent wedi eu torri, a bod staff y Parc Cenedlaethol yn ystyried cynlluniau ar gyfer gerddi yr Elusendai. Nodwyd fod trefniadau yn eu lle i osod blodau mewn potiau mewn amrywiol safleoedd yn y pentref.

**3366 Materion Ariannol:**

Cyflwynwyd Adroddiad Ariannol i'r cyngor, ac fe gymeradwywyd taliadau fel â ganlyn:

- Cyflog a threth incwm y Clerc.
- Anfoneb cytundeb glanhau y toiledau.
- Anfoneb nwyddau glanhau y toiledau.
- Anfonebau torri gwair mynwentydd.
- Anfoneb am perspex i atgyweirio Lloches Bws y Llan.

Nodwyd fod incwm y toiledau cyhoeddus am fis Mehefin yn £102.53. Cytunwyd i fabwysiadu taflen incwm i'r toiledau, gyda'r Cadeirydd a'r Clerc i arwyddo'r daflen.
Nodwyd derbyn taliadau ffioedd y fynwent – cyfanswm o £962.00.
Adroddwyd fod dogfennau archwiliad ariannol 2025/2026 wedi eu cyflwyno i Archwilio Cymru, a bod Hysbyseb Archwilio Cyfrifon 2025/2026 wedi ei arddangos ar wefan a hysbysfwrdd y cyngor.

**3367** **Menter Gymunedol Llanuwchllyn:** Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod o Bwyllgor Rheoli'r fenter a gynhaliwyd ar Fehefin 28ain, pryd y trafodwyd yr Uned Gwefru Cerbydau, a'r angen i symud ymlaen gyda throsglwyddiad tir rhan isaf Mynwent yr Eglwys o'r cyngor cymuned i'r fenter.

**3368** **Cwmni Pum Plwy Penllyn:** Rhoddwyd adroddiad o gyfarfod o fwrdd y cwmni a gynhaliwyd ar Fehefin 22ain, pryd y rhoddwyd diweddariad ar waith Canolfan Henblas, Canolfan Bro Tegid, Hwb Llesiant y Bala a Phenllyn, cyhoeddi'r Cyfnod, gwasanaeth y car Cymunedol, trafodaethau Neuadd Buddug a'r cynllun i adleoli gwaith celf canolfan Cywain i safle ger y Ganolfan Hamdden. Adroddwyd fod y cwmni wedi gwneud cais am

statws elusennol, a bod Fflur Evans wedi ei phenodi fel Swyddog Marchnata Cymunedol, i weithredu ar ran sawl mudiad cymunedol ym Mhenllyn.

3369 **Materion cynllunio:** Nid oedd materion cynllunio i'w trafod.

3370 **Gohebiaeth:**

i) Ardoll Ymwelwyr Gwynedd: Cytunwyd gefnogi'r bwriad o gyflwyno Ardoll Ymwelwyr i Wynedd, ac i ychwanegu sylwadau fod angen gofalu fod yr arian a gesglir yn ateb anghenion cymunedau sy'n cael eu heffeithio gan dwristiaeth. Trafodwyd yr angen i gyflwyno ardoll i ymwelwyr dyddiol, ac effaith bosibl yr ardoll ar faniau yn parcio dros nos mewn safleoedd heb eu rheoleiddio.

ii) Parc Cenedlaethol Eryri – Proffil Anheddau Llanuwchllyn. Adroddwyd fod y Parc Cenedlaethol wedi paratoi proffil o Lanuwchllyn fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol newydd. Gofynnwyd i'r clerc gyflwyno sylwadau Pwyllgor Datblygu'r cyngor i'r Parc Cenedlaethol.

iii) Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru: Derbyniwyd ymgynghoriad ar faint, rôl a chyfrifoldebau cynghorau cymuned, a nodwyd fod y Pwyllgor Datblygu wedi paratoi ymateb ar ran y cyngor cymuned.

iv) Neuadd Bentref Llanuwchllyn: Derbyniwyd copi o adroddiad ariannol y neuadd am 2025/2026, a derbyniwyd gwybodaeth hefyd fod Pwyllgor y Neuadd yn bwriadu ymgeisio am statws CIO (Sefydliad Corfforedig Elusennol) a fyddai'n gwarchod buddiannau ymddiriedolwyr y neuadd. Nodwyd y gallai hyn effeithio ar rôl y cyngor cymuned fel ymddiriedolwyr gwarcheidiol i'r neuadd.

v) Deffib i Bennantlliw: Trafodwyd yr awgrym o osod Deffib i ardal Pennantlliw, a'r posibilrwydd o'i osod yn y ciosg ger y Bont Newydd, ciosg sydd ym mherchenogaeth y cyngor. Cytunwyd i archwilio cyflwr y ciosg yn gyntaf er mwyn cadarnhau ei fod yn addas i'r bwriad.

vi) Gŵyl y Glaniad 2026: Derbyniwyd gwybodaeth am ddigwyddiad gŵyl y Glaniad ym Mhenrhyndeudraeth ar Orffennaf 25ain.

vii) Gwasanaeth Cydymffurfio'r Parc Cenedlaethol: Derbyniwyd gwybodaeth am amcanion a threfniadau y gwasanaeth o fewn yr Adran Gynllunio.

3371 **Ystyried materion lleol y Cynghorwyr:**

i) Daeth i sylw'r cyngor fod angen ystyried trefniadau parcio cerbydau ym Mhennantlliw, a bod angen torri gwair yn ardal Maes y Pandy. Gofynnwyd i'r Cyng Alan Evans i drafod ymhellach.

3372 **Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** Nos Fawrth 1/9/26 am 7.30pm yn y Neuadd Bentref.